

Cofnodion o gyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu dros zoom Ebrill 7.4.22

Presennol – Eth, IJ, GP,HJ,RW,KT,

Absennol drwy Ymddiheuriad

CE, AH

Gwefan – DW

Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

Cafwyd anerchiad gan DW parthed y wefan Newydd arfaethedig. Dangoswyd templed.

Hwn yn datblygu yn dda iawn, ambell newid ei angen eto..

Beth am linc I dudalen fb. Pasiwyd I adael hyn am y tro.

Dywedodd GP, tudalen we Newydd ar gyfer Cyngor/Cynghorwyr Newydd.

Etholiadau

Ni fydd etholiad Cyngor Llanbedr

3 Cynghorydd yn sefyll I lawr – Caroline Evans, Iolyn Jones, Gruffydd Price.

Diolchwyd iddynt am eu gwaith a bydd colled mawr ar eu holau.

Daeth enwau 2 o'r Cyhoedd I'w henwebu.

Felly cawn gyfethol 3 aelod arall.

Cynghorwyr dal y n eu seddi:-

Eirwyn Thomas, Helen Johns, Robin Ward, Kevin Titley, 2 aelod arall.

Cyngor Sir – nid oedd yna wrthwynebwyd I Annwen Hughes fel Cynghorydd Sir. Bydd Llanbedr o Fis Mai gyda 2 aelod yn ein cynrychioli ar Gyngor Gwynedd. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Bydd Llanbedr yn rhan o Ward Harlech).

Adran Cyllid

Bod IJ wedi bod ar hyfforddiant dros zoom gyda Parish Online Cost o £15.00

Gwaith Tendro – wedi derbyn tender am waith Mynwent £150 y toriad – pasiodd I'w dderbyn

Cae Chwarae I gyd – Pasiwyd ei dderbyn £250 y mis

Neb wedi tendro am y llwybrau cyhoeddus. Pasiwyd I anfon at gwmni Evergreen I edrych a fyddai ganddynt ddiddordeb yn y Gwaith. Llwybrau oren a coch I gychwyn. Deallwyd mae megis contract mae nhw yn gweithredu ac nid fesul awr.

Anfon plan o'r llwybrau iddynt I gael pris ar y llwybrau yma I gychwyn.

Pasiwyd I gymeradwyo taliadau mis Ebrill megis

J.T,Thomas – accounts paye £60

HMRC – tax cyflog Clerc £129.40

Gwaith Cyfieuthu Catrin £101.25

Hamdden Harlech - £2157.02

Insurance y Cyngor BHIB - £451.36

Cymru 1 £219.60

Ad daliad zoom l'r Clerc £ 158.37 heb wneud hwn) (Mawrth, ebrill a mai)

Cyflog, costau Clerc £1053.67 heb wneud hwn

Parish online £15.00 (heb wneud hwn)

Materion yn codi o'r Cofnodion

Bod RW wedi ychwanegu sylwadau parthed llythur ffordd arfaethedig.

Fel Cyngor nododd GP yn ol yn 1992 roedd 2 Gynghorydd yn gwrthwynebu y ffordd osgoi bryd hynny. Ond roedd y mwyafrif o blaid. Felly o blaid yn cario'r dydd.

Yr un yw'r sefyllfa yn awr. Y Cyngor o blaid y ffordd Newydd.

Eitem ola ar yr adroddiad ddim yn bosib – cau y ffordd drwy'r pentref am gyfnodau!

Angen beth bynnag I gael sensor traffic yn y Pentref I weld faint mor brysur yw'r ffordd.

Hefyd camerau I arafu traffic.

Hyn l'w wneud ar amserau penodol. Bod AH I drefnu cael rhywbeth yma.

Gardd Goffa – bod plac er cof o ansawdd wedi cael ei gosod ger y goeden yn yr ardd goffa.

Adroddiad dros e bost gan AH

- a) Bod ty cymdeithasol 3 Bryn Deiliog yn cael ei werthu. Beth yw barn y Cyngor. Ei bod wedi dadla yn erbyn gwerthiant, ond bod Adra yn honi bod gormod o waith gwario l'w wneud yn safonol.

Pasiwyd hefyd ein bod fel Cyngor yn siomedig yn hyn, tai cymdeithasol ydynt I fod. Er bydd amod 106 arnynt, ond a fydd pobl leol yn gallu eu prynu?

- b) Coed yn yr afon – dal heb gael ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfarfod ger Rheilffordd Talwrn Bach 5.4.22

RW, AH, GP a Mel

Bod yna ddatblygiDAU CYFFROUS AR Y GWEILL ar gyfer 2023

Bod bin sbwriel wedi ei osod yna.

Hefyd bod GP am gysylltu gyda gwneithurwr y mapiau llwybrau er mwyn gweld faint fydda pris cael un ar gyfer gorsaf Talwrn Bach. Deall na fydd unrhyw waith gwella ar y cysgodfan ar hyn o bryd. Hefyd wedi cael enw cyswllt y person sydd wedi mabwysiadu gofal o'r Orsaf yma.

Materion Eraill

1. Ffordd Rhiw Garth Goch yn dyllog iawn unwaith eto. Hysbysu Cyngor Gwynedd o hyn.
2. Ni chawn fel Cyngor gyfarfod nes ar ol yr etholiadau ar y 5.5.22
3. Iolyn Jones – am geisio am grant eto tuag at Cae Deiliog – archebu meinciau a planhigion. Pasiwyd bod hyn yn iawn.
4. IJ yn holi beth fydd yn digwydd parthed llwybrau cyhoeddus.? Bod 8 polyn ganddo ef. Angen mwy o rhain. Hefyd pa lwybrau l'w neilltuo.

Bod y Cyngor Newydd yn trefnu parthed llwybrau.

KT yn diolch iddynt am eu Gwaith. Hefyd parthed casglu sbwriel yn enw Cyngor Cymuned. Pasiwyd bod hyn yn iawn.

5. Trafferth gyda goriad y bwrdd hysbysebu. Ceisio cael rhai newydd.